Ysgol Llanhari

GORAU GWASANAETH GWAITH

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☎ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
www.llanhari.com

19eg o Fehefin

Annwyl Riant / Ofalwr Cynradd

Gyda phum wythnos o'r flwyddyn brysur hon ar ôl, hoffwn ddiolch i chi am eich cydweithrediad parod a'ch cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn hon ers imi gychwyn ar fy swydd fel Pennaeth Ysgol Llanhari. Mae wedi bod yn bleser i ddod i adnabod y disgyblion iau yn well a threulio mwy o amser yn eu cwmni. Maent mor ffodus i gael y fath brofiadau gwych wrth i'r athrawon a chynorthwywyr gynllunio yn unol â gofynion y Cwricwlwm i Gymru a does dim rhyfedd eu bod mor eiddgar i ddod i'r ysgol bob bore. Braf fu cyfarfod cynifer ohonoch yn y Diwrnod Agored yn ddiweddar a diolch i chi am gefnogi. Gobeithiwn gynnal digwyddiad tebyg yn flynyddol yn dilyn llwyddiant y diwrnod hwn.

Mae digonedd o weithgareddau a theithiau wedi eu cynllunio i bob dosbarth yn ystod y pum wythnos nesaf. Yn y lle cyntaf, edrychwn ymlaen at groesawu rhieni Dosbarth Barcud i noson wybodaeth am 5yh Dydd Mercher, yna croesawu rhieni bob dosbarth i'r ysgol Dydd Iau ar gyfer mabolgampau'r adran gynradd. Gobeithio hefyd bod nifer o ddisgyblion Dosbarth Barcud yn gallu ymuno â ni nos Wener yma yng Nghlwb Rygbi Llantrisant yn y gig a brwydr y bandiau a drefnir gan Ffrindiau Llanhari. Os nad yw eich plentyn wedi prynu tocyn eisioes, mae modd prynu tocyn ar y drws am £4. Diolch yn fawr i aelodau Ffrindiau Llanhari am eu cymorth cyson a'u hymroddiad i godi arian i'r ysgol. Mae croeso mawr i aelodau newydd bob amser.

Cynhelir noson agored yr adran uwchradd ar y 28ain o Fehefin i Ddosbarth Gwennol, felly edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r ffreutur yn yr adran uwchradd erbyn 5yh. Bydd seremoni raddio Dosbarth Dewi Draenog ar yr 28ain o Fehefin hefyd, yn y bore. Edrychwn ymlaen at ddathlu diwedd cyfnod Dosbarth Barcud yn yr adran gynradd cyn iddynt drosglwyddo i flwyddyn 7 ar yr 20fed o Orffennaf. Ar ddiwedd wythnos olaf ond un, byddwch yn derbyn copi o adroddiad cynnydd eich plentyn am eleni. Mae'r athrawon wrthi yn brysur yn eu hysgrifennu ar hyn o bryd ac yn canolbwyntio ar gryfderau a meysydd datblygu pob disgybl.

Ar y 13eg o Orffennaf, bydd cyfle i'r disgyblion gwrdd â'u hathrawon newydd ar gyfer mis Medi. Mae rhai athrawon yn gweithio rhan amser y flwyddyn nesaf, ond nodir isod pwy sy'n gyfrifol am bob dosbarth. Mae rhai newidiadau i eleni. Mrs Cath Webb sy'n parhau i arwain yr adran gynradd yn ogystal â throsglwyddo a'r Cwricwlwm i Gymru ar draws yr ysgol. Mrs Ffion Richards yw'r Dirprwy Arweinydd Cyfnod, fel eleni.

| | |
|---|---|
| Dosbarth Dewi Draenog | Mrs Cerys Vincent |
| Dosbarth Cadi Cwningen | Mrs Ruth Benjamin |
| Dosbarth Gwion Gwiwer | Miss Bethan Evans |
| Dosbarth Drudwy | Miss Ffion Rowlands (Miss Tanwen Jones tan hanner tymor Hydref) |
| Dosbarth Cnocell y Coed | Mrs Rhian Owen |
| Dosbarth Tylluan | Mr Iwan James |
| Dosbarth Gwennol | Miss Amy Wride |
| Dosbarth Barcud | Miss Imogen Hunt |

I gloi, llongyfarchiadau mawr i dîm criced bl4 ar eu buddugoliaeth yng nghystadleuaeth yr Urdd a dymuniadau gorau iddyn nhw yn cynrychioli rhanbarth Morgannwg Ganol yn y rowndiau cenedlaethol. Llwyddiant arbennig!

Yn gywir

Meinir Thomas

Meinir Thomas
Pennaeth

# Ysgol Llanhari

GORAU GWASANAETH GWAITH

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☎ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
www.llanhari.com

19th of June 2023

Dear Primary Parent / Carer

With five weeks of this busy year remaining, I would like to thank you for your cooperation and support throughout this year since I started my post as Head of Ysgol Llanhari. It has been a pleasure to get to know the younger pupils better and spend more time in their company. They are so lucky to have such wonderful experiences as the teachers and teaching assistants plan in accordance with the requirements of the Curriculum for Wales, and it is not surprising that they are so eager to come to school every morning. It was nice to meet so many of you at the Open Day recently and thank you for your support. We hope to hold a similar event annually following the success of this event.

There are plenty of activities and trips planned for each class during the next five weeks. In the first instance, we look forward to welcoming parents of Barcud to an information evening at 5pm on Wednesday, then welcoming parents of each class to school on Thursday for the primary department's sports day. I also hope that a number of Barcud pupils can join us this Friday night at Llantrisant Rugby Club in the gig and battle of the bands event organised by Ffrindiau Llanhari. If your child has not already bought a ticket, it is possible to buy a ticket on the door for £4. Many thanks to the members of Ffrindiau Llanhari for their constant support and dedication to raising money for the school. New members are always very welcome

The secondary department's Open Evening will be held on the 28th of June and we look forward to welcoming Dosbarth Gwennol's parents and pupils to the canteen in the secondary section by 5pm. Also, on the morning of the 28th, the Dewi Draenog graduation ceremony will be held. We look forward to celebrating the end of Barcud's pupils in the primary department before they transfer to year 7, on the 20th of July. At the end of the penultimate week, you will receive a copy of your child's progress report for this year. The teachers are currently busy writing them and are focusing on each pupil's strengths and areas of development.

On the 13th of July, the pupils will have the opportunity to meet their new teachers n readiness for September. Some teachers are working part-time next year but I have noted below who is responsible for each class. There are some changes from this year. Mrs Cath Webb continues to lead the primary department as well as transition and the Curriculum for Wales across the school. Mrs Ffion Richards is the Deputy Phase Leader.

| | |
|---|---|
| Dewi Draenog | Mrs Cerys Vincent |
| Cadi Cwningen | Mrs Ruth Benjamin |
| Gwion Gwiwer | Miss Bethan Evans |
| Drudwy | Miss Ffion Rowlands (Miss Tanwen Jones until October half term) |
| Cnocell y Coed | Mrs Rhian Owen |
| Tylluan | Mr Iwan James |
| Gwennol | Miss Amy Wride |
| Barcud | Miss Imogen Hunt |

Finally, huge congratulations to the yr4 cricket team on their win in the Urdd competition and good luck in the national finals where they will be representing Mid Glamorgan.

Yours sincerely

Meinir Thomas

Meinir Thomas
Headteacher